
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Ymchwiliadau Cyhoeddus i gynigion ffyrdd

## Yr hyn y mae angen i chi ei wybod

Gallwch gael copïau ychwanegol o'r llyfryn hwn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

G/MH/2523/02-07 Chwefror Cysodwyd mewn teip 12pt
ISBN 0 7504 9034 9 A-CMK-22-03-077 © Hawlfraint y Goron 2007

# Rhagair

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn berthnasol i ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal i gynigion ffyrdd yng Nghymru yn bennaf. Dylech ddarllen y llyfryn yn ofalus. Mae'n egluro'n syml y trefniadau a'r gweithdrefnau a geir ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus a gynhelir i gynigion ffyrdd a sut y mae'r ymchwiliadau hynny yn arwain at benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ni all ddehongli'r gyfraith mewn ffordd awdurdodol. Dim ond y llysoedd a all wneud hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo cynigion ar gyfer cefnffyrdd a thraffyrdd. Mae'r Gweinidog Cynulliad perthnasol yn gyfrifol am unrhyw ymchwiliad i'r cynigion hyn ac am y penderfyniad a wneir ar ôl hynny. Mae hefyd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus a gynhelir i gynigion sy'n cael eu hyrwyddo gan awdurdod priffyrdd lleol. Yn y llyfryn hwn, mae 'y Gweinidog' yn golygu Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Rhan 1 y llyfryn hwn yn ymdrin â chynigion sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae Rhan 2 yn ymdrin â chynigion ffyrdd gan Gyngor lleol neu gan ddatblygwr sydd am i briffordd gael ei chau. Mae Rhan 3 yn egluro'r hyn y gallwch chi ei wneud os ydych am herio penderfyniad y Gweinidog neu os nad ydych yn hapus ynghylch y ffordd y cafodd yr ymchwiliad ei gynnal. Mae rhai nodiadau esboniadol yn yr Atodiad.

# Cynnwys

**Rhagarweiniad** 1

**Diben yr ymchwiliad cyhoeddus** 2

**Rhan 1: Cefnffyrdd (gan gynnwys traffyrdd)** 4

**Trefn yr ymchwiliad a'r dull o'i redeg** 4

Pam cynnal ymchwiliad? 4

Pwy sy'n trefnu ymchwiliad cyhoeddus? 5

Pwy yw'r Arolygydd? 5

Beth yw rôl yr Arolygydd? 6

Pa bwerau sydd gan yr Arolygydd? 6

Pwy fydd yno? 8

Pwy a gaiff siarad yno? 8

Pryd mae cyfarfodydd gweithdrefnol cyn yr ymchwiliad yn cael eu cynnal a beth yw eu diben? 8

A ddylwn gyflogi person sydd â chymwysterau proffesiynol i'm cynrychioli, neu ymuno â grŵp o wrthwynebwyr/cefnogwyr? 9

Sut y bydda i'n gwybod pryd y bydd cyfarfod cyn yr ymchwiliad yn cael ei gynnal? 9

Sut y bydda i'n gwybod pryd a ble y bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal? 10

A fydd rhaglen a sut y caiff ei threfnu? 11

Beth ddylwn ei wneud os na alla i ddod ar y diwrnod cyntaf, neu ddim o gwbl? 12

A fydd dogfennau a gwybodaeth arall yn cael eu hanfon ata i? 13

A oes angen i mi baratoi Datganiad Achos? 14

Sut y galla i roi tystiolaeth yn yr ymchwiliad? 14

Sut y galla i gynnig llwybr arall? 16
Beth fydd trefn y siaradwyr? 17
A fydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle? 18
Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymchwiliad a sut y byddaf yn cael gwybod am y penderfyniad? 18
A alla i gael fy ad-dalu am gostau mynychu'r ymchwiliad? 20
A fydd penderfyniad y Gweinidog yn cynnwys faint o iawndal y gallwn ei gael os bydd fy nhir, fy eiddo neu fy muddiant yn cael eu prynu'n orfodol? 21

**Rhan 2: Ffyrdd eraill 23**

Beth am gynigion ffyrdd nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu hyrwyddo? 23
Pwy sy'n trefnu ymchwiliad cyhoeddus? 23
Pa Reolau ffurfiol sy'n cael eu dilyn? 23
Pwy sy'n gwneud y penderfyniad? 24

**Rhan 3: Gweithdrefnau herio a chwyno 25**

A alla i herio'r penderfyniad? 25
Beth ddylwn ei wneud os nad wy'n fodlon â'r ffordd y cafodd ymchwiliad ei gynnal? 25

**Atodiad 27**

Nodiadau 1-6 27

**Nodiadau 30**

# Rhagarweiniad

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi paratoi'r llyfryn hwn. Dylai'ch helpu chi os ydych yn ystyried cyflwyno'ch barn neu gael eich cynrychioli mewn ymchwiliad cyhoeddus sy'n ymwneud â chynigion ffyrdd.

2. Mewn rhai achosion, caiff cynigion ffyrdd eu dangos yn y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal. Gall yr awdurdod cynllunio lleol gynnal ymchwiliad annibynnol i gynllun datblygu (os yw'n gynllun datblygu unedol – CDU) neu archwiliad ( os yw'n gynllun datblygu lleol – CDLl). Caiff y gweithdrefnau ar gyfer ymchwiliadau CDU ac archwiliadau CDLl eu disgrifio yn y llyfrynnau 'Cynlluniau Datblygu Unedol – Canllaw i weithdrefnau' a 'Cynllunio eich Cymuned: Canllaw i Gynlluniau Datblygu lleol'. Gallwch gael copïau rhad ac am ddim o swyddfeydd y Cynghorau lleol neu swyddfa'r Parc Cenedlaethol.

3. Fel arfer, yr awdurdod priffyrdd sy'n rhoi cynigion ffyrdd ar waith. Yn achos cynigion ar gyfer cefnffyrdd (gan gynnwys traffyrdd) Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â chynigon o'r fath. Yr awdurdod priffyrdd lleol sy'n gyfrifol am ffyrdd eraill. Serch hynny, caiff datblygwr preifat neu gorff cyhoeddus wneud cais am ganiatâd i gau priffordd.

4. Mae gwahanol fathau o gynigion ffyrdd ar gael. Er enghraifft, gallai Llywodraeth y Cynulliad neu Gyngor (fel yr awdurdod priffyrdd) gyhoeddi/gwneud gorchymyn neu gynllun statudol i ddiffinio llinell neu lwybr ffordd newydd, er mwyn adeiladu ffyrdd cysylltu neu er mwyn cau neu newid ffyrdd ymyl cysylltiol. Caiff Cyngor wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer ffordd newydd neu ar gyfer newid ffordd yn ardal i gerddwyr yn unig. Caiff datblygwr wneud cais am ganiatâd i gau ffordd. Gallai gorchmynion prynu gorfodol gael eu cyhoeddi/ gwneud i gaffael unrhyw dir sydd ei angen. Gallai'r holl

weithdrefnau hyn neu rai ohonynt gael eu gweithredu ar yr un pryd. Mewn achosion tebyg, bydd yr ymchwiliadau fel arfer yn cael eu cynnal gyda'i gilydd.

5. Mae rheolau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o ymchwiliadau (gweler Nodiadau 1-3 yn yr Atodiad). Mae un set o Reolau ar gyfer ymchwiliadau sy'n ymwneud â llinell ffyrdd newydd; mae set arall yn ymdrin ag ymchwiliadau i'r broses o gaffael tir neu eiddo'n orfodol; ac mae set arall o Reolau'n ymdrin ag apelau sy'n ymwneud â cheisiadau am ganiatâd cynllunio. Y Rheolau sy'n pennu pryd a sut y mae'n rhaid cyhoeddi ymchwiliad, sut y dylid ei gynnal a'r hyn sy'n digwydd wedi hynny. Mae mwy o fanylion y Rheolau i'w gweld yn yr Atodiad.

6. I gael mwy o wybodaeth am y cynigion neu am drefniadau ar gyfer ymchwiliadau i Gefnffyrdd a Thraffyrdd, gallwch gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, Ffôn 029 20825111. Ar gyfer cynlluniau ffyrdd lleol, cysylltwch naill ai â'r Cyngor lleol priodol neu'r Arolygiaeth Gynllunio, Ystafell 1-004, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Ffôn 029 20823866.

## Diben yr ymchwiliad cyhoeddus

7. Diben yr ymchwiliad cyhoeddus yw rhoi cyfle i wrthwynebwyr a chefnogwyr y cynllun ffordd gyflwyno'u tystiolaeth ger bron Arolygydd Cynllunio annibynnol. Mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt brofi'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno gan y partïon eraill ac os yw'n briodol, i groesholi tystion. Prif dasgau'r Arolygydd yw ystyried y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno; adrodd ar y dystiolaeth honno; a gwneud argymhellion i'r Gweinidog ar y cynigion.

8. Nid yr Arolygydd sy'n gwneud y penderfyniad terfynol; mater i'r Gweinidog yw penderfynu ar ôl ystyried y sylwadau a'r gwrthwynebiadau, adroddiad yr Arolygydd a'r holl agweddau perthnasol ar bolisïau Llywodraeth y Cynulliad.

# Rhan 1: Cefnffyrdd (gan gynnwys traffyrdd)

## Trefn yr ymchwiliad a'r dull o'i redeg

### Pam cynnal ymchwiliad?

9. Ar ôl i fersiynau drafft o orchmynion statudol gael eu cyhoeddi, cewch gyfle i gyflwyno gwrthwynebiad neu sylw, yn enwedig tirfeddiannwyr, a bydd hysbysiad yn cael ei gyflwyno hefyd i'r rheini â buddiant mewn eiddo y mae gorchymyn prynu gorfodol drafft yn effeithio arnynt. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio datrys gwrthwynebiadau o'r fath ond os na allant wneud hynny, efallai y gallent arwain at ymchwiliad cyhoeddus.

10. Nid yw ymchwiliad cyhoeddus o anghenraid yn cael ei gynnal i bob cynnig ffordd. Weithiau ni cheir unrhyw wrthwynebiad; neu efallai y gellir datrys gwrthwynebiadau sydd wedi'u gwneud drwy ohebiaeth. O bryd i'w gilydd, mae'n ofynnol cynnal ymchwiliad o dan y gyfraith. Hyd yn oed os nad yw'n ofynnol cynnal ymchwiliad o dan y gyfraith, gall y Gweinidog orchymyn bod un yn cael ei gynnal os yw'n meddwl bod angen gwneud hynny. Serch hynny, nid llys barn yw ymchwiliad i gynigion ffyrdd, ac nid barnwr yw'r Arolygydd.

11. Mae llawer o ymchwiliadau yn syml a dim ond am ryw ddiwrnod neu ddau y maent yn para. Gall eraill bara am rai wythnosau. Mewn rhai ymchwiliadau, efallai mai dim ond ychydig o bobl a fydd am siarad. Mewn ymchwiliadau eraill, efallai y bydd llawer o bobl am siarad a gallai cynghorwyr cyfreithiol neu gynghorwyr eraill ymddangos ar eu rhan. Ond nid oes raid i neb bryderu ynghylch mynd yno i siarad a holi pobl sy'n cyflwyno tystiolaeth y maent yn anghytuno yn ei chylch. Nid cystadleuaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sawl sy'n gwrthwynebu yw ymchwiliad priffyrdd. Diben yr

ymchwiliad yw rhoi cyfle i'r Arolygydd glywed y ffeithiau a'r dadleuon perthnasol a phenderfynu beth y dylai ei argymell i'r Gweinidog. Cyn belled ag y bo'n bosibl, bydd pawb yn cael amser i gyflwyno'u hachos ond ni fydd gennych hawl i roi tystiolaeth sy'n amherthnasol, yn ailadroddus neu'n enllibus. Gan fod yn rhaid i'r Arolygydd gadw trefn, mae'n anorfod y bydd y gwrandawiad yn eithaf ffurfiol. Os yw'r ymchwiliad yn debygol o fod yn hir, dylech geisio cyrraedd yno cyn iddo ddechrau ond nid oes raid i chi aros ymlaen ar ôl i chi roi'ch tystiolaeth. Fwy na thebyg, bydd Swyddog Rhaglen wrth law a all ddweud wrthych pa dystiolaeth sy'n debygol o gael ei chyflwyno ar unrhyw adeg benodol. Er hynny, nid oes dim i'ch rhwystro rhag aros drwy gydol y gwrandawiad, neu rhag trefnu i berthynas, ffrind neu gynghorydd fod yn bresennol er mwyn rhoi gwybod i chi am yr hyn a drafodwyd.

## Pwy sy'n trefnu ymchwiliad cyhoeddus?

12. Y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynigion sy'n ymwneud â chefnffyrdd/traffyrdd yng Nghymru ac am benodi'r Arolygydd annibynnol, sy'n cael ei enwebu gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gwneud trefniadau ar gyfer yr ymchwiliad.

## Pwy yw'r Arolygydd?

13. Ar gyfer cynigion ffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n darparu'r person mwyaf cymwys a phrofiadol i fod yn Arolygydd ar gyfer pob ymchwiliad. Wedyn, caiff yr Arolygydd hwnnw ei benodi'n ffurfiol gan Lywodraeth y Cynulliad i gynnal yr ymchwiliad ac i adrodd i'r Gweinidog.

## Beth yw rôl yr Arolygydd?

14. Dylai'r Arolygydd:

- gynnal yr ymchwiliad gan ddilyn egwyddorion bod yn agored, yn deg ac yn ddiduedd;
- adrodd ar bwyntiau o wrthwynebiad/cefnogaeth sy'n cael eu cyflwyno iddo;
- rhoi ei farn am rinweddau'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y cynigion;
- cofnodi ei gasgliadau ac argymell a ddylid cymeradwyo'r cynigion ar ôl neu heb eu newid ai peidio neu roi ei reswm dros beidio â gwneud unrhyw argymhellion.

15. Mae Arolygwyr Cynllunio yn weithwyr proffesiynol diduedd ac mae dyletswydd arnynt i ddefnyddio'u holl brofiad a'u harbenigedd i asesu sylwedd y dystiolaeth sy'n cael ei rhoi ger eu bron. Yna, rhaid iddynt wneud argymhellion rhesymegol a diduedd ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd iddynt.

16. Mae'n bwysig cofio mai dim ond gwneud argymhelliad y mae'r Arolygydd. Y Gweinidog sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol.

## Pa bwerau sydd gan yr Arolygydd?

17. Ceir Rheolau sy'n pennu sut y caiff yr ymchwiliad ei gynnal, ond fel arall, yr Arolygydd sy'n llywio trefn yr ymchwiliad. Caiff benderfynu a fyddai'n fuddiol cynnal cyfarfod cyn yr ymchwiliad, llunio rhaglen y gwrandawiad a'r phennu'r amser y bydd yn dechrau ac yn gorffen bob dydd. Os bydd angen, caiff ohirio'r ymchwiliad a'i ailgychwyn yn ddiweddarach. Bydd yn gwrando ar unrhyw awgrymiadau a wneir ynghylch y ffordd y dylai drefnu'r busnes. Caiff benderfynu, yn unol â'r Rheolau,

pa dystiolaeth y gellir ei chlywed yn yr ymchwiliad. Er enghraifft, os ymdriniwyd â mater mewn ymchwiliad cynharach, gallai'r Arolygydd benderfynu y byddai'n anghywir ei drafod eto. Caiff wrthod clywed tystiolaeth amherthnasol neu ailadroddus.

18. Mae yna rai pethau na all yr Arolygydd ymdrin â hwy – er enghraifft materion cyfreithiol a chwestiynau ynghylch iawndal. Os caiff y rhain eu codi, fel arfer, bydd yn cyfeirio atynt yn ei adroddiad.

19. Weithiau, gallai un neu ddau Asesydd sydd wedi'u penodi gan y Gweinidog fod gyda'r Arolygydd i'w gynghori ar y pwysau y dylid ei roi i dystiolaeth o'r fath. Caiff ofyn cwestiynau ac, fel arfer, gofynnir iddo lunio adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd yr ymchwiliad. Nid yw penodi Asesydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar annibyniaeth yr Arolygydd.

20. Ar gyfer yr ymchwiliadau mwy a mwy cymhleth, caiff Arolygydd Cynorthwyol gydweithio â'r Arolygydd a rhannu'r cyfrifoldeb dros lunio adroddiad yr Arolygydd. Gallai'r Arolygydd Cynorthwyol gyflawni rhai neu bob un o'r dyletswyddau hyn:

- dilyn y gweithrediadau ym mhob un o sesiynau'r ymchwiliad dan arweiniad yr Arolygydd, gan gymryd nodiadau annibynnol a holi'r tystion ei hun fel y bo'n briodol;
- cynnal sesiynau o'r ymchwiliad ar ran, ac ym mhresenoldeb, yr Arolygydd ar bynciau penodol;
- cynnal y prif set o ddogfennau'r ymchwiliad, sicrhau eu bod wedi'u rhifo a'u rhestru'n gywir; a rhoi copi i'r Arolygydd o unrhyw ddogfen a grybwyllir yn y dystiolaeth;
- gweithredu fel cyswllt â'r cyfryngau;

- drafftio rhannau o'r adroddiad, gan gynnwys adrannau ar bynciau penodol.

## Pwy fydd yno?

21. Mae hyn yn dibynnu ar gwmpas yr ymchwiliad. Weithiau, dim ond yr Arolygydd, un neu ddau o gynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhai gwrthwynebwyr fydd yno. Yn yr ymchwiliadau mwy, caiff bargyfreithiwr a thystion o blaid y cynnig gynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chaiff y gwrthwynebwyr ddilyn yr un drefn. Hefyd, efallai y bydd pobl eraill yno sydd o blaid y cynigion ffordd neu'n gwrthwynebu dewis arall y mae gwrthwynebwyr wedi'i gynnig. Gall unrhyw un ddod i arsylwi, p'un a ydynt am siarad ai peidio ond mae'r Rheolau'n caniatáu i Arolygydd wahardd unrhyw un sy'n tarfu ar y gwrandawiad.

## Pwy a gaiff siarad yno?

22. Mae'r amryfal Reolau yn rhoi'r hawl i wrthwynebwyr statudol neu berthnasol siarad yn yr ymchwiliad a chroesholi eraill ond o bosibl, gallai unrhyw un sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad ffurfiol gael cyfle i roi tystiolaeth. Gall yr Arolygydd wrthod gwrando ar dystiolaeth ailadroddus neu amherthnasol, ond fel arfer, bydd yn caniatáu i berson sy'n gwneud cyfraniad perthnasol siarad. Os oes raid i'r Arolygydd ofyn i berson sy'n tarfu ar y gwrandawiad adael, caniateir i'r person hwnnw gyflwyno tystiolaeth yn ysgrifenedig.

## Pryd mae cyfarfodydd gweithdrefnol cyn yr ymchwiliad yn cael eu cynnal a beth yw eu diben?

23. Os yw'r Gweinidog neu'r Arolygydd yn meddwl ei bod o gymorth – efallai gan fod nifer fawr o wrthwynebiadau wedi dod i law neu oherwydd fod y materion i'w trafod yn rhai cymhleth – caiff yr Arolygydd gynnal cyfarfod

cyn yr ymchwiliad. Ni fydd y cyfarfod yn para mwy na diwrnod a bydd yn canolbwyntio ar drefniadaeth a gweithdrefnau. Er enghraifft, gallai gyfarfod i gytuno ar raglen i glywed gwrthwynebiadau yn yr ymchwiliad ei hun; i bennu, os yw'n bosibl, materion polisi sy'n berthnasol i'r cynllun neu gynnig y mae angen ei egluro mewn cyd-destun lleol; neu i weld a oes modd datrys unrhyw gwestiynau ffaith mewn ffordd gall cyn yr ymchwiliad.

## A ddylwn gyflogi person sydd â chymwysterau proffesiynol i'm cynrychioli, neu ymuno â grŵp o wrthwynebwyr/cefnogwyr?

24. Yn achlysurol, gallai bargyfreithiwr gynrychioli Llywodraeth y Cynulliad os yw'r ymchwiliad yn debygol o fod yn ddadleuol neu os yw'r materion yn rhai cymhleth. Gallwch benderfynu cyflogi person sydd â chymwysterau proffesiynol, fel cyfreithiwr neu serfëwr, sy'n gyfarwydd â chyflwyno achos yn gyhoeddus, i ymddangos ar eich ran, yn enwedig os yw'r materion yn gymhleth ac os nad ydych chi'n hun yn teimlo'n ddigon hyderus i'w trafod. Os ydych yn penderfynu gwneud hynny, dylech gofio mai chi, fel arfer, fydd yn gyfrifol am dalu'r ffioedd, heblaw eich bod yn wrthwynebydd statudol llwyddiannus – gweler paragraffau 65-66. Ar y llaw arall, cewch siarad drosoch eich hun, neu ofyn i ffrind wneud hynny. Bydd yr Arolygydd yn gweld bod pawb yn cael gwrandawiad teg p'un a yw'n cael ei gynrychioli gan rywun proffesiynol ai peidio. Y peth pwysig yw gwneud yn siwr bod yr Arolygydd yn cael clywed beth yw eich barn. Bydd yn bwysicach iddo glywed y farn honno na'r ffordd y caiff ei chyflwyno.

## Sut y bydda i'n gwybod pryd y bydd cyfarfod cyn yr ymchwiliad yn cael ei gynnal?

25. Bydd pob gwrthwynebydd ac unrhyw un arall a ddylai ddod i'r cyfarfod yn cael gwybod yn unigol am ddyddiad,

amser a lleoliad y cyfarfod cyn yr ymchwiliad, o leiaf 3 wythnos cyn y disgwylir iddo ddechrau. Hefyd, bydd hysbysiad am y cyfarfod yn y papurau lleol. Er bod darpariaethau yn y Rheolau ynghylch cyfarfodydd cyn yr ymchwiliad, os na allwch fynd i'r cyfarfod, ni fydd hyn yn effeithio ar eich hawliau yn yr ymchwiliad.

26. Os bydd cyfarfod cyn yr ymchwiliad yn cael ei gynnal, efallai y gofynnir i chi ddarparu braslun o'r Datganiad Achos. Datganiad ysgrifenedig yw hwn o'r prif bwyntiau rydych yn bwriadu'u cyflwyno i'r ymchwiliad. Ei ddiben yw helpu'r Arolygydd i nodi'n glir y prif faterion, i benderfynu ar drefn yr ymchwiliad a llunio rhaglen ar ei gyfer. Dylai'r datganiad felly gynnwys gwybodaeth am dystion rydych yn debygol o'u galw a pha dystion eraill yr hoffech eu croesholi. Er bod y Gweinidog yn cael cyflwyno datganiad amlinellol ar bob gwrthwynebydd, nid oes angen i chi gyflwyno datganiad oni bai y gofynnir i chi wneud hynny.

## Sut y bydda i'n gwybod pryd a ble y bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal?

27. Fel arfer, rhaid gwneud y penderfyniad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus, a'i gyhoeddi, o fewn 4 wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer gwrthwynebiadau i'r gorchymyn/gorchmynion drafft. Dylai'r ymchwiliad ei hun ddechrau fel arfer 22 wythnos fan bellaf ar ôl y cyhoeddiad hwnnw. Yn ystod y cyfnod hwnnw, dylech dderbyn Datganiad Achos gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n egluro'r cynigion. Os caiff cyfarfod cyn yr ymchwiliad ei gynnal, dylai'r ymchwiliad ddechrau cyn pen 8 wythnos ar ôl diwedd y cyfarfod hwnnw.

28. Os ydych wedi gwrthwynebu'r cynigion ffyrdd neu wneud gwneud sylwadau eraill amdanynt, cewch wybod am ddyddiad a lleoliad yr ymchwiliad o leiaf 6 wythnos cyn yr ymchwiliad. Rhoddir cyhoeddiad cyhoeddus

yn y papurau lleol o leiaf 14 niwrnod cyn dechrau'r ymchwiliad. Ar yr un pryd, bydd hysbysiadau i'w gweld ar hysbysfyrddau lleol, ac ar hyd y llwybr a gynigir.

29. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser yn ceisio cynnal yr ymchwiliad yn agos at y cynllun arfaethedig, ar ôl ystyried pa mor addas a diogel yw'r lleoliad. Mewn rhai ardaloedd gwledig, gallai fod anawsterau o ran trafnidiaeth a fyddai'n cyfyngu ar nifer y lleoliadau addas ac o bosibl, bydd angen dewis rhywle ymhellach i ffwrdd. Os felly, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried darparu cludiant i'r ymchwiliad ac oddi yno.

## A fydd rhaglen a sut y caiff ei threfnu?

30. Os ydych wedi cyflwyno gwrthwynebiad neu sylw, gofynnir i chi ddweud cyn yr ymchwiliad a fyddwch yn bresennol ac a fydd cynghorydd proffesiynol yn eich cynrychioli. Gofynnir i chi hefyd a ydych yn bwriadu galw unrhyw dystion. Bydd hyn yn caniatáu llunio rhaglen dros dro. Mewn ymchwiliadau byr, ni fydd angen cael rhaglen dros dro gan fydd modd gwrando ar bawb mewn diwrnod neu ddau. Os caiff cyfarfod cyn yr ymchwiliad ei gynnal, bydd y rhaglen dros dro ymysg yr eitemau a gaiff eu trafod.

31. Ar ddechrau'r ymchwiliad, p'un a gafodd rhaglen dros dro ei llunio ai peidio, fwy na thebyg, bydd yr Arolygydd yn gofyn i chi ddweud a ydych am siarad ac a ydych am alw tystion.

32. Mae rhaglen yn golygu na fydd raid i chi fynd i'r ymchwiliad bob dydd, ond cewch wneud hynny. Oni bai i chi glywed yn wahanol, mae'n bwysig i chi fod yno ar ddechrau'r ymchwiliad, os gallwch, er mwyn penderfynu ar y rhaglen ac er mwyn i chi wybod beth yw'r drefn a phryd y mae angen i chi fod yno.

33. Yn y rhan fwyaf o ymchwiliadau hwy, bydd Swyddog Rhaglen yn helpu'r Arolygydd a'i rôl fydd trefnu rhaglen yr ymchwiliad o ddydd i ddydd. Bydd y Swyddog Rhaglen ar gael drwy gydol yr ymchwiliad. Efallai y byddai o ddefnydd i chi wneud nodyn o rif ffôn y Swyddog hwn. Bydd yn dweud wrth bobl pryd y bydd eu tro i siarad yn debygol o fod. Bydd yn rhoi gwybod i bawb yn rheolaidd am newidiadau posibl i'r rhaglen. Serch hynny, eich cyfrifoldeb chi yw cadw mewn cysylltiad ag ef os byddwch am ymddangos.

34. Fel arfer, ni fydd trawsgrifiad llawn o'r ymchwiliad, ond efallai y caiff ei ystyried ar gyfer ymchwiliadau y mae disgwyl iddynt bara am fwy na 16 diwrnod (h.y. 4 wythnos). Pan fo trawsgrifiad yn cael ei chymryd, bydd yr Arolygydd fel arfer yn cyhoeddi hyn yn y cyfarfod cyn yr ymchwiliad. Gallwch weld y trawsgrifiad yn llyfrgell yr ymchwiliad (gweler paragraff 41). Mae trawsgrifiad yn un o'r gwasanaethau i wrthwynebwyr. Nid ydynt yn disodli nodiadau'r Arolygydd, sef ei gofnod ei hun o'r ymchwiliad.

## Beth ddylwn ei wneud os na alla i ddod ar y diwrnod cyntaf, neu ddim o gwbl?

35. Os byddwch chi'n gwybod cyn yr ymchwiliad na fydd yn bosibl i chi fod yno ar y diwrnod cyntaf, dylech ysgrifennu at yr Arolygydd yn egluro'ch diddordeb yn yr achos. Dylech roi d/o Swyddog Rhaglen yr ymchwiliad ar y llythyr. Bydd yn cysylltu â chi i drefnu diwrnod ac amser fydd yn gyfleus i chi ymddangos ond efallai na fydd bob amser yn bosibl gwneud hyn, yn enwedig os mai dim ond am ddiwrnod neu ddau y bydd yr ymchwiliad yn para. Ar gyfer ymchwiliadau hwy, efallai y bydd yn bosibl trefnu rhai sesiynau y tu allan i oriau arferol.

36. Os na allwch fod yno o gwbl, neu os byddai'n well gennych beidio â bod yno, gallwch anfon datganiad

ysgrifenedig at yr Arolygydd sy'n rhoi'ch barn am y cynigion. Dylech wneud hyn cyn i'r ymchwiliad ddechrau. Bydd yr Arolygydd yn gallu ystyried eich datganiad. Bydd modd i unrhyw un sydd â diddordeb weld datganiadau o'r fath.

## A fydd dogfennau a gwybodaeth arall yn cael eu hanfon ata i?

37. Ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi'r penderfyniad i gynnal ymchwiliad, cyhoeddir Datganiad Achos o fewn 6 wythnos. Bydd y Datganiad yn egluro'r cynigion a'r rhesymau drostynt a sut y maent yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth y Cynulliad ar gynigion ffyrdd.

38. Os yw'r ymchwiliad yn ymchwilio i linell ffordd newydd, bydd y datganiad yn crynhoi'r ymateb i unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei gynnal. Bydd hefyd yn amlinellu ystyriaethau eraill sydd wedi arwain at y cynigion yn y gorchymyn neu'r cynllun drafft. Cewch wybod lle y gallwch fynd i weld dogfennau a chynlluniau eraill.

39. Mae'r Datganiad Achos yn nodi'r prif bwyntiau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflwyno i'r Arolygydd yn yr ymchwiliad. Dylech ei ddarllen yn ofalus ac ystyried a oes unrhyw bwyntiau yr hoffech wneud sylwadau amdanynt yn yr ymchwiliad a dylech ei ddangos yn syth i'r sawl sy'n mynd i weithredu ar eich rhan.

40. Fwy na thebyg, nid yr eglurhad cyntaf o'r cynigion ffyrdd a gewch fydd y Datganiad Achos. Bydd y cynigion wedi'u egluro'n gryno ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi am y tro cyntaf. Efallai y byddent wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus i bennu llwybr a ffefrir. Mae'n bosibl bod arddangosfa leol wedi'i chynnal pan gafodd y gorchmynion drafft eu cyhoeddi neu efallai eich bod wedi cysylltu â Llywodraeth y Cynulliad ynghylch pwyntiau penodol.

41. Fel arfer, bydd cyfleusterau llyfrgell yn cael eu darparu yn ystod ymchwiliad. Bydd y llyfrgell yn cynnwys yr holl ddeunydd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei gyflwyno ac sy'n sail i'w hachos. Gellir ychwanegu at y deunydd hwn wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo. Bydd trefniadau ar gyfer gwneud copïau o'r dogfennau, fel arfer yn ddi-dâl, ond bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

42. Ar ôl darllen Datganiad Achos Llywodraeth y Cynulliad, byddwch o bosibl am gael mwy o wybodaeth i'ch helpu i baratoi eich achos. Gallwch ofyn i Lywodraeth y Cynulliad roi gwybodaeth i chi am y ffeithiau a'r rhagdybiaethau sy'n sail i'w hachos, canlyniadau dadansoddiadau, eglurhad o'i dulliau a gwybodaeth arall sydd wedi'i pharatoi. Efallai y codir tâl bychan am gynlluniau a dogfennau. Bydd modd gweld nodiadau canllaw i Arolygwyr ac unrhyw wybodaeth gefndir a ddarperir i'r Arolygydd. Ni fydd Llywodraeth y Cynulliad yn casglu gwybodaeth nac yn cynnal dadansoddiadau os yw'n ystyried eu bod yn amherthnasol gan y byddai hyn yn ddefnydd afresymol o'i hadnoddau.

## A oes angen i mi baratoi Datganiad Achos?

43. Dim ond os cewch gais ffurfiol i baratoi Datganiad Achos y dylech wneud hynny. Dylai'r Datganiad amlinellu prif bwyntiau ei achos. Dylai restru pob dogfen rydych yn bwriadu'i chyflwyno neu gyfeirio ati yn eich tystiolaeth a dylid amgáu copïau ohonynt. Nid yw'r Datganiad yn rhan o'ch tystiolaeth.

## Sut y gallaf roi tystiolaeth i'r ymchwiliad?

44. Y ffordd arferol o roi tystiolaeth i ymchwiliad yw cyflwyno prawf o dystiolaeth cyn dechrau'r ymchwiliad. Dyma ddatganiad llawn o'r achos rydych am ei gyflwyno. Dylai fod mor gryno â phosibl a chanolbwyntio ar brif bwyntiau'r achos. Dylai gynnwys unrhyw gynigion eraill

yr hoffech eu gwneud a dylech roi eich rhesymau yn llawn.

45. Os yw'ch prawf dros 1,500 o eiriau, bydd angen i chi baratoi crynodeb hefyd.

46. Dylech gyflwyno'ch prawf, ynghyd â'i grynodeb, os oes un, i'r Swyddog Rhaglen o leiaf dair wythnos cyn y dyddiad a bennir i'r ymchwiliad ddechrau. Os caiff cyfarfod cyn yr ymchwiliad ei gynnal, gallai'r Arolygydd o bosibl bennu dyddiad arall ar gyfer cyflwyno'ch prawf. Yn sgil cyflwyno prawf y dystiolaeth ymlaen llawn, gall yr Arolygydd ddarllen y dystiolaeth cyn ei chlywed yn gyhoeddus. Gall darllen prawf o dystiolaeth yn gyhoeddus gymryd llawer o amser. Y drefn arferol fydd i chi, a thystion eraill, ddarllen y crynodeb yn unig. Mae darllen y crynodeb yn unig yn atgoffa'r Arolygydd o'r prif bwyntiau rydych yn eu gwneud ac yn eu dwyn i sylw pobl eraill ond oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, eich prawf llawn fydd eich tystiolaeth i'r ymchwiliad a bydd modd i chi gael eich croesholi yn ei gylch.

47. Efallai y bydd yr Arolygydd yn meddwl ei bod o ddefnydd iddo glywed prawf llawn, yn hytrach na'r crynodeb yn unig. Gall wneud hyn os yw'n dymuno. Gall hefyd ganiatáu i wrthwynebydd roi tystiolaeth lafar yn unig os nad yw wedi bod yn bosibl darparu prawf ysgrifenedig.

48. Os ydych am siarad, rhaid i chi hefyd fod yn barod i ateb cwestiynau y bydd yr Arolygydd neu bobl eraill yn eu gofyn. Byddwch chi hefyd yn gallu holi tystion eraill. Bydd yr Arolygydd yn gwneud yn siwr bod y cwestiynau'n cael eu gofyn mewn ffordd syml a rhesymol.

49. Bydd modd i bobl weld prawf o dystiolaeth y mae'r Arolygydd wedi'i ystyried, a bydd copïau ar gael lle y bo'n ymarferol.

## Sut y galla i gynnig llwybr arall?

50. Efallai y byddwch yn meddwl y dylai cynigion Llywodraeth y Cynulliad ddilyn llwybr gwahanol. Os ydych yn bwriadu awgrymu llwybr arall, dylech roi gwybod i Lywodraeth y Cynulliad cyn gynted â phosibl. Efallai y gofynnir i chi roi manylion a disgrifio'r llwybr. Nid oes angen rhoi manylion llawn ond dylech fod wedi meddwl yn ofalus am y llwybr a dylai fod yn realistig. Mewn llawer o achosion, bydd tynnu llinell ar fap a ddefnyddiwyd ar gyfer llinell y gorchymyn drafft yn gwneud y tro. Os bydd angen newid cyffordd, gallech ddarparu bras-gynllun. Mewn achosion syml, gallai darparu disgrifiad ysgrifenedig fod yn ddigon. Does dim angen rhoi gwybodaeth fanwl – dim ond digon i sicrhau bod modd adnabod eich llwybr arall.

51. Os bydd gofyn i chi roi manylion eich awgrym, gofynnir i chi wneud hynny erbyn dyddiad a bennir o leiaf 14 diwrnod cyn yr ymchwiliad. Mae'n bwysig eich bod yn eu hanfon cyn y dyddiad cau, neu bydd hawl gan yr Arolygydd a'r Gweinidog i ddiystyru'ch awgrym. Diben pennu dyddiad yw caniatáu amser i anfon eich awgrym at y rhai y gallai effeithio arnynt a gwneud yn siwr y gellir ei drafod yn gall yn yr ymchwiliad. Yn yr ymchwiliad, bydd angen i chi roi eich resymau i'r Arolygydd dros feddwl bod eich awgrym chi'n well na'r cynigion a gyhoeddwyd. Rhaid i chi fod yn barod i gael eich croesholi ynghylch y dewis arall rydych yn ei gynnig. Cewch holi pobl eraill am unrhyw ddewisiad y gallent eu cynnig.

52. Rhaid i chi gofio bod y cynigion ffyrdd yn cael eu hystyried yng nghyd-destun budd y cyhoedd. Os ydych yn gwrthwynebu'r cynigion, byddwch, fwy na thebyg, am berswadio'r Arolygydd bod rhesymau da dros fwrw ymlaen â'r cynllun, neu y dylid mabwysiadu cynllun arall, neu y dylid newid y cynllun. Nid oes angen i chi gefnogi'ch achos drwy roi'r manylion peirianyddol neu

gostau cynigion eraill, ond gallwch wneud hyn os ydych yn meddwl y bydd yn helpu'ch achos.

## Beth fydd trefn y siaradwyr?

53. I raddau helaeth, yr Arolygydd sy'n penderfynu ar y drefn y bydd pobl yn siarad. Fodd bynnag, yr awdurdod hyrwyddo sydd â'r hawl i ddechrau a'r hawl i roi'r ateb terfynol. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gwneud y datganiad agoriadol ac yn galw tystion i egluro'r cynigion yn fanylach ac i ddangos sut y maent yn cyd-fynd â'i pholisïau. Gall pobl sy'n rhoi tystiolaeth ar ran Llywodraeth y Cynulliad gael eu holi gan wrthwynebwyr a phartïon eraill neu gan eu cynrychiolwyr. Efallai y bydd pobl eraill sydd am siarad o blaid y cynigion yn cael eu galw yn ystod y cyfnod hwn.

54. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, bydd yr Arolygydd wedyn yn galw cynrychiolwyr awdurdodau lleol neu ymgymerwyr statudol; yna y rheini sy'n cynrychioli buddiannau neu grwpiau arbennig; ac yna unigolion.

55. Gellir profi tystiolaeth unrhyw dyst drwy ei holi. Os ydych yn galw tyst, cewch ei holi ymhellach ynghylch atebion y tyst. Os ydych yn codi pwynt newydd na chafodd ei drafod mewn tystiolaeth, gall yr Arolygydd ganiatáu i dystiolaeth bellach gael ei rhoi ynghylch hyn. Fel arfer, caniateir i chi ofyn mwy o gwestiynau. Wedyn caiff cynrychiolwyr Llywodraeth y Cynulliad wneud sylwadau am y materion a godwyd. Ar ôl unrhyw ddatganiad cloi y mae'r person sy'n cyflwyno'r dystiolaeth am ei wneud, mae'r ymchwiliad yn symud ymlaen i'r cefnogwr neu'r gwrthwynebydd nesaf.

56. Nid ymchwiliad lleol i gynllun penodol yw'r lle i drafod polisïau trafnidiaeth cenedlaethol. Nid oes raid i gynrychiolwyr Llywodraeth y Cynulliad ateb cwestiynau ynghylch rhinweddau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru

neu ynghylch dulliau, safonau dylunio, rhagdybiaethau a rhagolygon economaidd twf traffig a fabwysiadwyd. Er hynny, byddant yn egluro sut y mae ei chynigion yn cyd-fynd â'r polisïau hynny.

57. Pan fydd pob parti wedi cael gwrandawiad, mae cynrychiolydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei sylwadau cloi; ar ôl hynny, mae'r ymchwiliad yn dod i ben.

## A fydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle?

58. Efallai y bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle ar ei ben ei hun cyn neu yn ystod yr ymchwiliad. Gallai hefyd ymweld â'r safle gyda chynrychiolydd Llywodraeth y Cynulliad a gwrthwynebwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod neu ar ôl yr ymchwiliad. Gallwch dynnu ei sylw at bethau sydd ar y safle neu'n agos ato a sôn wrtho sut y gallai'r cynigion ffyrdd effeithio ar yr ardal. Ni all yr Arolygydd drafod rhinweddau'r cynigion ffyrdd na gwrando ar ddadleuon yn ystod ymweliad â'r safle. Bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi amser a dyddiad ymweliad safle yn ystod yr ymchwiliad. Os hoffech i'r Arolygydd ymweld ag unrhyw le arbennig dylech roi gwybod iddo mewn da bryd.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymchwiliad a sut y byddai'n cael gwybod am y penderfyniad?

59. Mae'r Arolygydd yn cyflwyno adroddiad i'r Gweinidog; gallai hyn gymryd peth amser ond fel arfer, bydd gan yr Arolygydd darged bras o dri diwrnod i lunio'r adroddiad am bob diwrnod y parodd yr ymchwiliad, ynghyd â chyfnod ychwanegol ar gyfer y gwaith gweinyddu. Pan fo Asesydd wedi paratoi adroddiad ar wahân, bydd hwn yn cael ei gyflwyno gydag adroddiad yr Arolygydd. Bydd adroddiad yr Arolygydd yn ei gwneud yn glir i ba raddau y mae'n cytuno â'r Asesydd ac yn rhoi rhesymau dros unrhyw anghytuno.

60. Mae'r Gweinidog yn ystyried yr adroddiad yn ofalus cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion, a ddylid eu diwygio neu a ddylid eu gollwng a mynd ati i chwilio am ateb arall. Dim ond rhan – ond rhan bwysig iawn, wrth gwrs – o'r deunydd sy'n sail i benderfyniad y Gweinidog yw adroddiad yr Arolygydd ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad a'r argymhellion y mae'n eu gwneud. Y Gweinidog yn unig sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad. Gallai ei gasgliadau fod yn gwbl neu'n rhannol wahanol i argymhellion yr Arolygydd.

61. Nid yw'r Gweinidog yn gorfod derbyn pob neu unrhyw argymhelliad a wneir gan yr Arolygydd ond pan fo'n

(i) gwahaniaethu oddi wrth yr Arolygydd ar unrhyw fater o ffaith sy'n cael ei grybwyll yn un o gasgliadau'r Arolygydd, neu i bob golwg, yn berthnasol iddo; neu

(ii) yn ystyried tystiolaeth newydd neu fater o ffaith newydd (nad yw'n fater o bolisi Llywodraeth y Cynulliad)

a'i fod/bod am y rheswm hwnnw yn tueddu i anghytuno ag argymhellion yr Arolygydd, mae'r Rheolau'n eu gwneud yn ofynnol iddo roi cyfle i rai dosbarthiadau diffinedig o wrthwynebwyr wneud sylwadau. Fel arfer, rhoddir y cyfle hwnnw i bawb a fu'n siarad yn yr ymchwiliad. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yn rhaid ailagor yr ymchwiliad.

62. Pan fo'r Gweinidog yn cynnig addasu'r cynigion yn sylweddol, yn sgil ystyried adroddiad yr Arolygydd, bydd yn rhoi gwybod i bawb y gallai'r newidiadau a gynigir effeithio arnynt. Bydd cyfle i'r bobl hyn gyflwyno'u sylwadau cyn i'r Gweinidog wneud y penderfyniad. Gallai addasiadau o'r fath ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi mwy o orchmynion drafft ac efallai y bydd angen cynnal ymchwiliad cyhoeddus arall.

63. Gallai'r amser y mae'n ei gymryd i gyhoeddi penderfyniad y Gweinidog ddibynnu ar nifer o ffactorau, ee pa mor gymhleth yw'r cynllun a pha mor hir yw adroddiad yr Arolygydd. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad darged o gyhoeddi'r penderfyniad o fewn chwe mis ar ôl i adroddiad yr Arolygydd ddod i law.

64. Bydd pawb sydd wedi ysgrifennu, neu wedi ymddangos yn yr ymchwiliad, yn derbyn llythyr yn rhoi gwybod iddynt am benderfyniad y Gweinidog. Hwn yw'r llythyr penderfyniad, ac fel arfer amgaeir copi o adroddiad yr Arolygydd. Os yw'r adroddiad yn un swmpus, dim ond casgliadau ac argymhellion fydd yn cael eu darparu. Yn y llythyr penderfyniad, cewch wybod ble y gallwch chi weld copïau llawn o'r adroddiad a dogfennau eraill; fel arfer, gallwch weld copi o'r adroddiad yn unig yn swyddfeydd y Cyngor lleol, mewn llyfrgelloedd a lleoedd addas eraill. Gallwch ofyn i Lywodraeth y Cynulliad am gopi o'r adroddiad llawn, sy'n rhad ac am ddim, ar ôl i'r llythyr penderfyniad gael ei anfon atoch.

## A alla i gael fy ad-dalu am gostau mynychu'r ymchwiliad?

65. Fel arfer, mae disgwyl i'r partïon mewn ymchwiliad dalu eu costau eu hunain. Yr unig eithriadau yw

(i) pan fo gwrthwynebydd statudol wedi gwrthwynebu (yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus) gynigion i gymryd tir oddi wrtho/wrthi at ddibenion y cynllun. Yn yr achos hwn, caiff costau rhesynol paratoi'r achos eu had-dalu i'r gwrthwynebydd (yn llawn neu'n rhannol) gan yr awdurdod sy'n gwneud y gorchymyn; neu

(ii) pan all unrhyw un a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwiliad ddangos bod un neu fwy o'r cyfranogwyr eraill wedi ymddwyn mewn ffordd afresymol a bod yr ymddygiad afresymol hwnnw

wedi achosi iddynt wastraffu neu orfod ysgwyddo costau'n ddiangen.Yn yr achos hwn, efallai y bydd gofyn i'r cyfranogwr(wyr) 'afresymol' dalu costau paratoi ar gyfer yr ymchwiliad a ysgwyddwyd gan y parti arall. Yn ymarferol, mae unrhyw gost sy'n cael ei ddyfarnu ar y sail hwn yn debygol o fod yn gysylltiedig â materion gweithdrefnol, megis methu â chyflwyno rheswm dros wrthwynebu neu ddatganiad achos, sy'n arwain at gostau diangen – ee oherwydd bod yn rhaid i'r ymchwiliad gael ei ohirio neu'i fod wedi'i ymestyn yn ddiangen. Ceir mwy o ganllawiau o ran hynny yng Nghylchlythyr 23/93 y Swyddfa Gymreig [Dyfarnu costau a gafwyd mewn gweithrediadau cynllunio a gweithrediadau eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol).

66. Gall ymuno â chymdeithas preswylwyr neu grŵp gweithredu eich helpu chi ac eraill i dalu am gynrychiolaeth broffesiynol ond ni fydd y trefniadau ad-dalu costau yn talu costau'r gymdeithas hyd yn oed os bydd ei hachos yn llwyddiannus. Fodd bynnag, os ydych yn wrthwynebydd statudol llwyddiannus (gweler paragraff 65 uchod), gallai'ch cyfraniadau i gostau'r gymdeithas gael eu had-dalu naill ai i chi neu i'r gymdeithas.

## A fydd penderfyniad y Gweinidog yn cynnwys faint o iawndal y gallwn ei gael os bydd fy nhir, fy eiddo neu fy muddiant yn cael eu prynu'n orfodol?

67. Na fydd. Mae penderfyniad y Gweinidog yn dod yn rhy gynnar i gynnwys swm yr iawndal i'w dalu. Mater i'w drafod â'r gwerthwr sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru pan fydd y tir yn cael ei brynu yw hwn. Ond fe allai fod gennych hawl i gael un taliad o'r iawndal ymlaen llaw os caiff eich tir ei feddiannu

cyn i swm terfynol yr iawndal gael ei bennu. O dan rai amgylchiadau, gallech dderbyn mwy o daliadau. Ni fydd y taliadau hyn yn effeithio ar y setliad terfynol mewn unrhyw ffordd. Os na ellir cytuno ar yr iawndal y mae gennych hawl iddo, gallech gyfeirio'r mater i gorff annibynnol, y Tribiwnlys Tiroedd. O dan unrhyw un o'r amgylchiadau hyn, gallech fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol i dalu costau cyflogi cyfreithiwr. Hefyd, gallech fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol i'ch galluogi i gael eich cynrychioli yng ngwrandawiadau'r Tribiwnlys Tiroedd. Mae cyfres o lyfrynnau o'r enw "Iawndal Tir – Egluro'ch Hawliau" ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.

# Rhan 2: Ffyrdd eraill

## Beth am gynigion ffyrdd nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu hyrwyddo?

68. Mae llawer o'r wybodaeth yn Rhan 1 hefyd yn berthnasol i gynigion ffyrdd a wneir gan Gynghorau lleol (fel yr awdurdod priffyrdd) a chynigion gan ddatblygwyr preifat neu gyrff cyhoeddus ar gyfer cau priffyrdd, ond mae yna wahaniaethau sylweddol. Ceir eglurhad isod.

69. Rhaid i gynllun neu orchymyn a wneir gan awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer cynigion ffyrdd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Os oes gwrthwynebiadau gan awdurdodau statudol sydd heb eu tynnu'n ôl, rhaid cynnal ymchwiliad. Os na fydd perchnogion neu feddiannwyr tir wedi tynnu'u gwrthwynebiad yn ôl, fel arfer bydd ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal.

## Pwy sy'n trefnu ymchwiliad cyhoeddus?

70. Yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n gyfrifol am y trefniadau, gan gynnwys penodi'r Arolygydd, er mai'r cyngor lleol fydd yn gwneud y trefniadau manwl ar gyfer yr ymchwiliad.

## Pa Reolau ffurfiol sy'n gymwys?

71. O dan y Rheolau sy'n gymwys i gynlluniau a gorchmynion a gynigir gan Lywodraeth y Cynulliad, ceir adran am gynlluniau a gorchmynion a gynigir gan awdurdodau priffyrdd lleol. Gweler y Nodiadau yn Atodiad y llyfryn hwn.

72. Ceir Rheolau tebyg pan fydd Cyngor yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

73. Gall datblygwyr preifat neu gyrff cyhoeddus hefyd gynnig cau priffyrdd neu newid priffyrdd yn ardal i gerddwyr yn unig. Ni cheir Rheolau ffurfiol ar gyfer ymchwiliadau i

gynigion o'r fath o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ond, yn gyffredinol, mae'r weithdrefn yn dilyn y Rheolau ar gyfer ymchwiliadau cynllunio.

## Pwy sy'n gwneud y penderfyniad?

74. Yn achos cynlluniau neu orchmynion a wneir gan Gynghorau lleol, y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n gwneud y penderfyniad. Os yw'r Gweinidog yn anghytuno ag argymhellion yr Arolygydd, rhaid iddo roi'r un cyfle i'r Cyngor wneud sylwadau ag y mae'n ei roi i'r gwrthwynebwyr statudol a ymddangosodd yn yr ymchwiliad.

# Rhan 3: Gweithdrefnau herio a chwyno

## A alla i herio'r penderfyniad?

75. O dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981, ceir gweithdrefnau lle y caiff unigolyn y mae'r cynllun neu'r gorchymyn wedi'i dramgwyddo herio penderfyniad yn yr Uchel Lys ar y sail bod y pwerau statudol wedi'u torri neu na fodlonwyd rheolau'r weithdrefn. Rhaid i unrhyw gais gael ei wneud yn yr Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y cafodd yr hysbysiad am wneud y cynllun neu'r gorchymyn ei gyhoeddi gyntaf. Neu, pan fu'n rhaid gosod y cynllun neu'r gorchymyn ger bron y Senedd, o fewn chwe wythnos o'r dyddiad y mae'r cynllun neu'r gorchymyn yn dod i rym.

76. Mae penderfyniad y Gweinidog yn derfynol, oni bai bod yr Uchel Lys yn gwrthod y penderfyniad drwy ddileu'r cynllun neu'r gorchymyn, neu bod yn rhaid i'r cynllun neu'r gorchymyn, o dan amgylchiadau arbennig, gael ei osod ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn yr achos olaf, gellir dwyn deiseb yn erbyn y cynllun neu'r gorchymyn i'w chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol.

77. Dylech ystyried gofyn am gyngor cyfreithiol cyn mynd ati i gyflwyno Her yn yr Uchel Lys. Gall eich Canolfan Cyngor ar Bopeth eich cynghori ynghylch unrhyw gymorth ariannol y gallech fod yn gymwys i'w gael.

## Beth ddylwn ei wneud os nad wy'n fodlon â'r ffordd y mae ymchwiliad yn cael ei gynnal?

78. Yn ystod neu ar ôl yr ymchwiliad, dylid anfon unrhyw gwynion am y ffordd y cafodd yr ymchwiliad ei gynnal i'r Swyddog Cwynion, Yr Arolygiaeth Gynllunio, Ystafell 1-004, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

79. Dylid anfon cwynion am swyddogion unigol i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

80. Mae'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd yn un o gyrff cynghori'r Llywodraeth ar weithdrefnau mewn ymchwiliadau cyhoeddus yn gyffredinol. Os ydych yn teimlo bod rhywbeth o'i le â'r gweithdrefnau a gafodd eu defnyddio cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymchwiliad, gallwch gwyno i'r Cyngor yn 81 Chancery Lane, London, WC2A 1BQ. Bydd y Cyngor yn delio â'r mater os yw'n teimlo'i fod o fewn ei gwmpas, ond nid yw'n ymwneud â rhinweddau'r achos, ac nid oes ganddo'r pwer i newid y penderfyniad.

# Atodiad

Mae'r atodiad hwn yn rhoi mwy o fanylion y pwyntiau sy'n deillio o brif adrannau'r llyfryn.

## Nodyn 1

Y Rheolau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i orchymynion a chynlluniau a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Gyngor o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 yw Rheolau Priffyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994 (Offeryn Statudol 1994 Rhif 3263).

## Nodyn 2

Y Rheolau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i brynu tir neu eiddo'n orfodol yw Rheolau Prynu Gorfodol gan Weinidogion (Y Weithdrefn Ymchwiliadau) 1994 (Offeryn Statudol 1994 Rhif 3264) os mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cyflwyno'r gorchymyn prynu gorfodol. Os mai Cyngor a wnaeth, y Rheolau yw'r rhai a ddisgrifir yn Reolau Prynu Gorfodol gan Awdurdodau Anweinidogol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1990 (Offeryn Statudol 1990 Rhif 512).

## Nodyn 3

Y Rheolau ar gyfer ymchwiliadau sy'n deillio o geisiadau am ganiatâd cynllunio yw Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2003 (Offeryn Statudol 2003 Rhif 1266).

## Nodyn 4

Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau priffyrdd lleol sy'n trefnu ymchwiliadau i briffyrdd mewn perthynas â Chefnffyrdd a Thraffyrdd yng Nghymru. Trefnir ymchwiliadau i briffyrdd awdurdodau lleol gan yr Arolygiaeth Gynllunio, Ystafell 1-004, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Nodyn 5

### Gweithdrefnau ar gyfer Cynghorau Lleol sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio

O dan Reoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer eu cynlluniau datblygu eu hunain megis cynlluniau ffyrdd. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn fod cynnig ar gyfer ffyrdd leol yn gwyro oddi wrth y cynllun datblygu, rhaid iddo roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan ddarpariaethau Cyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac Ymgynghori) 1992. Mae'r Cyfarwyddiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am unrhyw gais a gyflwynwyd – nad yw'n gwyro o'r cynllun datblygu – am ddatblygu, sy'n cynnwys adeiladu ffordd nad yw ei llwybr yn ymddangos ar y cynllun lleol perthnasol neu'r cynllun datblygu unedol.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfnod cychwynnol o 21 diwrnod i benderfynu a ddylid galw i mewn y ceisiadau y cafodd wybod amdanynt i benderfynu arnynt ei hun. Yn anaml iawn y mae'n galw ceisiadau i mewn, ac yn gyffredinol, dim ond pan fo'r materion cynllunio'n bwysicach na materion lleol y mae'n gwneud hynny.

Os yw'r Cyngor yn dymuno i'r ffordd newydd fod yn ffordd arbennig, rhaid iddo – yn ogystal â dilyn y weithdrefn – gyhoeddi cynllun statudol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ei gymeradwyo.

Gall y Cyngor gyhoeddi gorchmynion statudol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i newid neu gau ffyrdd ymyl a ffyrdd mynediad, ac i adeiladu pontydd dros ddyfrffyrdd y gellir eu mordwyo a thwneli oddi tanynt. Rhaid cyflwyno'r gorchmynion hyn hefyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymeradwyo.

## Nodyn 6

Mae'r Deddfau Seneddol perthnasol yn disgrifio'r amgylchiadau penodol pan fo'n rhaid cynnal ymchwiliad. Dim ond o dan un amgylchiad y mae'n rhaid cynnal ymchwiliad oherwydd bod unigolion neu gwmnïau preifat wedi mynegi gwrthwynebiad, sef pan fo ganddynt fuddiant mewn tir neu eiddo sydd wedi'i gynnwys mewn gorchymyn prynu gorfodol a'u bod yn gwrthwynebu'r gorchymyn hwnnw.

# Nodiadau